Adolygiad o 2005-2006

Arwain Cymru tuag at ragoriaeth rheolaeth

Cyngor Rheolaeth Cymru

Wales Management Council

EIN GWELEDIGAETH A'N CENHADAETH

Corff y mae cyflogwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, sy'n derbyn nawdd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, i hybu datblygiad rheolwyr yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru.

Ein cenhadaeth yw

Helpu rheolwyr yng Nghymru i arwain a rheoli mewn modd llwyddiannus.

Rydym

yn arwain Cymru tuag at ragoriaeth rheolaeth

a'n nod yw:

Ysbrydoli, cymell ac ysgogi newid yn y ddirnadaeth yngl_n â chyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr, ac yn y modd o'u darparu, y nifer sy'n manteisio arnynt a nawdd ar eu cyfer yng Nghymru.

trwy

- argyhoeddi pob rheolwr o'r manteision ddaw yn sgîl datblygu eu sgiliau a'u galluoedd
- ymchwilio yn drylwyr i nodi gwir anghenion datblygu rheolwyr Cymru
- gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn gallu sicrhau hyfforddiant a datblygiad hyblyg, o safon uchel
- rhannu arfer gorau rheolwyr y DU a rheolwyr rhyngwladol â holl fusnesau Cymru
- mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy.

© Cyngor Rheolaeth Cymru 2006

Caniateir atgynhyrchu adrannau o'r ddogfen hon cyn belled â bod cydnabyddiaeth lawn yn cael ei rhoi i'r cyhoeddwr, sef Cyngor Rheolaeth Cymru.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Blwch Post 61
25 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 1AA

Ffôn: 029 2022 4114
Ffacs: 029 2022 4113

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

I gael rhagor o wybodaeth am waith Cyngor Rheolaeth Cymru, ewch i'n gwefan
www.walesmanagementcouncil.org.uk

EDRYCH YN ÔL AC EDRYCH YMLAEN

Ian Rees - *Cadeirydd*

Dyma f' adolygiad terfynol fel Cadeirydd Cyngor Rheolaeth Cymru. Rwyf wedi manteisio ar y cyfle hwn i grynhoi yr hyn rydym wedi'i gyflawni dros yr 8 mlynedd diwethaf, ac i osod gweithgareddau y llynedd yng nghyd-destun ehangach y gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers ei ail-lansio fis Hydref 1998.

Un o dasgau cyntaf y Cyngor oedd comisiynu adroddiad ar yr hyn yr oedd angen ei wneud yng Nghymru i adeiladu cronfa o reolwyr o'r radd flaenaf. Dyma oedd casgliad yr adroddiad

- roedd gwybodaeth am raddau'r gallu rheoli a'r cyflenwad yn dameidiog iawn
- rhoddwyd mwy o fri ar ymagweddau anffurfiol tuag at ddysgu nag ar gymwysterau ffurfiol
- roedd methiant cyffredinol i werthu manteision 'datblygu rheolwyr' i'r busnes, ac
- roedd gan gyflogwyr ganfyddiad negyddol o'r term hwnnw yn aml.
- Casglodd yr adroddiad y dylai Cyngor Rheolaeth newydd Cymru arwain wrth hybu pwysigrwydd datblygu rheolwyr, gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael, a gweithio i wella hygyrchedd ac ansawdd gweithgareddau datblygu rheolwyr, a chynyddu'r cydweithredu rhwng y gwahanol gyrff sy'n gweithio yn y maes yma yng Nghymru.

Ian Rees,
Cadeirydd,
Cyngor Rheolaeth Cymru

Roedd yr argymhellion hyn yn darparu sail gadarn ar gyfer ein gweithgareddau yn y dyfodol. Wedi sicrhau cyllideb gweithredu cychwynnol oddi wrth y Swyddfa Gymreig ar y pryd, fe sicrhaodd Cyngor Rheolaeth Cymru ei fod yn cael ei adeiladu i gynlluniau gweithredu'r llywodraeth a ddaeth i'r amlwg trwy'r

- Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant ym 1999
- adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru yn 2000
- y ddau gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yn 2002 a 2005
- ac yn ddiweddar, y ddogfen ymgynghori economaidd Cymru: Economi yn ffynnu.

O ganlyniad i'r cynlluniau gweithredu hyn, gofynnwyd i'r Cyngor gyhoeddi dau bapur strategol, sef Agenda ar gyfer Gweithredu yn 2003 ac Agenda ar gyfer Twf yn 2005 sydd ers hynny wedi darparu sail ar gyfer creu polisïau yn y maes yma yng Nghymru.

Trwy gydweithio â'n partneriaid yn ELWa a'r WDA rydym wedi sicrhau bod mesurau ymarferol ar waith i gynyddu proffil gweithgareddau datblygu rheolwyr gyda chyflogwyr ar lawr gwlad. Mae'r Gwasanaeth Ymgynghori Busnes Cyffredinol yn sicrhau bod gallu rheoli ac anghenion datblygu cwmnïau sy'n gleientiaid yn cael eu hadolygu fel rhan o'r dadansoddiad o angen busnes. Mae ELWa wedi comisiynu cyfres bwysig o weithdai datblygu rheolwyr ar hyd a lled Cymru i ddarparu ar gyfer datblygu sgiliau ar bob lefel, ac mae'n noddi gweithgareddau i ddatblygu rheolwyr cwmnïau penodol trwy ei Raglen Datblygu'r Gweithlu. Rydym wedi rheoli a datblygu menter Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru dros y 6 blynedd diwethaf, ac hefyd wedi rhedeg a chydweithredu mewn nifer fawr o achlysuron a chynadleddau ledled Cymru i gynyddu proffil a phwysigrwydd rhaglenni datblygu rheolwyr. Fe orffennodd y rhain y llynedd gyda chynhadledd lwyddiannus iawn o'r enw Arwain Ymlaen a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Grenville Jackson, ELWa ac Ian Rees yng nghyfarfod lansio'r Cynllun Gweithredu Datblygu Rheolwyr

Mae'r Cyngor wedi comisiynu amrediad eang o raglenni ymchwil ac wedi cyhoeddi sawl papur ers 1999. Mae'r rhain wedi amrywio o astudiaeth o sut y gellir marchnata gweithgareddau datblygu rheolwyr yn llwyddiannus i fusnesau yng Nghymru (a'r gwersi'n cael eu hymgorffori i'r gwahanol gynigion cyfredol a geir oddi wrth y Cyngor ac ELWa fel ei gilydd), trwy ddata llinell sylfaen ar weithgareddau datblygu yng Nghymru (o safbwynt galw a chyflenwi fel ei gilydd), i ganllawiau ymarferol ar dueddiadau mewn rheolaeth, arferion gwaith perfformiad campus, effaith technoleg ar arferion rheoli, a rheoli arloesedd. Mae ein gwefan bellach yn cynnwys sawl erthygl ar feddwl rheolaethol a chyn bo hir fe fydd clipiau fideo byr ar gael lle bydd arweinwyr busnes o bob rhan o'r DU yn cynnig cyngor ymarferol ar yr arfer gorau.

Bu'r Cyngor yn weithredol yn y dasg o annog cydweithrediad a meddwl cydgysylltiedig ar yr ochr gyflenwi. Ni sy'n cadeirio grŵp llywio Datblygu Arweinwyr a Rheolwyr sy'n dwyn ynghyd y prif rai sy'n derbyn nawdd oddi wrth y llywodraeth, gan gynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, ELWa, WDA, Rheoli yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Fforwm Addysg Bellach. Rydym hefyd yn cadeirio cyfarfodydd rheolaidd uwch gynrychiolwyr yr Ysgolion Busnes yng Nghymru fel eu bod yn gallu edrych ar ffyrdd o gydweithredu er budd cwmnïau yng Nghymru. Ymhlith yr enghreifftiau eraill o'r ysbryd newydd o bartneriaeth yw'r Gwobrau Arwain Cymru (cydweithrediad rhwng y Cyngor, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA), Ysgol Fusnes Caerdydd, Sefydliad Siartredig y Rheolwyr, Common Purpose, Cyfreithwyr Dolmans, Hilton Caerdydd, Llwybrau Dysgu Cymru) a chynhadledd Arwain Ymlaen sydd wedi'i threfnu ar y cyd gan y Cyngor, IoD, CMI, CIM, CIPD ac ILM.

Er ein bod ni wedi cyflawni llawer, gwyddom hefyd fod llawer ar ôl i'w wneud:

- nid yw busnesau yng Nghymru eto wedi'u hargyhoeddi fod gweithredu i ddatblygu eu harweinwyr a'u rheolwyr yn allweddol i lwyddiant
- mae'r ochr gyflenwi yn orlawn o gynigion sy'n amrywiol iawn o ran eu hansawdd
- nid oes digon o gymorth i helpu pob sefydliad i bennu beth yw eu hangen datblygu neu i ddod o hyd i gymorth priodol.

Er mwyn parhau i arwain Cymru tuag at ragoriaeth rheolaeth, rydym wedi dechrau paratoi cynllun 10 mlynedd. Ein bwriad yw gofyn i'r llywodraeth a'r prif bleidiau gwleidyddol i gefnogi'r cynllun hwn er mwyn sicrhau dull strategol, cyson a chydlynol o ddatblygu arweinwyr a rheolwyr yn y tymor hir.

Mae'r her i gwblhau'r cynllun bellach yn wynebu Andrew Wilkinson, ein Cadeirydd newydd, a'i Gyngor ef. Dymunaf pob llwyddiant iddynt, ac rwyf yn hyderus y bydd y brwdfrydedd, yr arweinyddiaeth a'r ymroddiad sydd wedi bod mor amlwg ymhlith aelodau a gweithredwyr y Cyngor dros yr wyth mlynedd diwethaf yn golygu y bydd pob cyfle iddynt lwyddo.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl aelodau fy Nghyngor o'r presennol a'r gorffennol, Christopher Ward fy Mhrif Weithredwr, Gwyneth Stroud a Tina Stephens sy'n weithredwyr, a chyn-weithwyr y Cyngor am eu cefnogaeth, eu penderfyniad a'u hymroddiad yn ystod y blynyddoedd y cefais y fraint o fod yn Gadeirydd. Bu'n gyfnod llawn hwyl a her ac yn daith o ddysgu. Trwy ymwneud â bod ar flaen y gad o ran arfer gorau, rwyf wedi gweld a mabwysiadu syniadau newydd o'r tu mewn i Gymru ac o dramor, wedi datblygu fy ngallu fy hun o ran arwain a rheoli, a gallaf siarad o brofiad personol pan ddywedaf, "Ydy, mae datblygu rheolwyr wedi gwneud gwahaniaeth i mi a'm sefydliad". O ganlyniad, credaf i ni greu Cyngor unigryw sy'n gallu siarad ag awdurdod ac angerdd â'r llywodraeth a diwydiant fel ei gilydd a dylanwadu ar eu canfyddiadau a'u gweithredoedd. Wrth i'n dysgu a'n deall gynyddu, rwy'n sicr y bydd statws Cyngor Rheolaeth Cymru hefyd yn tyfu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

YN EI GRYNDER

Christopher Ward – *Prif Weithredwr*

Ystyrir arfarniad 360 gradd yn un o'r offerynnau mwyaf pwerus i helpu rheolwyr i ddatblygu eu sgiliau eu hunain, oherwydd ei fod yn cywain barn croestoriad o'r holl bobl y deuant ar eu traws, felly nid oes unlle i fynd i ymguddio.

Eleni, cawsom arfarniad 360 gradd sefydliadol pan benododd Llywodraeth Cynulliad Cymru CM International i gynnal Adolygiad o EffeithiolrwyddCyngor Rheolaeth Cymru. Mae Crynodeb Gweithredol llawn eu hadroddiad terfynol i'w weld ar dudalennau 6 ac 7 yr adolygiad hwn, ac rydym wrth ein bodd â'u casgliad bod

> Cyngor Rheolaeth Cymru yn gorff sydd wedi'i drefnu'n broffesiynol a'i redeg yn dda ac sy'n mabwysiadu dull cydlynol o ddatblygu ei strategaeth drefniadol a'i weithgareddau. Gellir dweud bod ei ddull o adeiladu perthnasoedd a rhwydweithio hefyd yn 'broffesiynol'. Mae'n cynnig gwerth am arian ac yn defnyddio'i adnoddau cyfyngedig i'r eithaf.

Cododd cwestiynau a sylwadau, wrth gwrs, ynghylch ffocws ein gweithgareddau, lled a dyfnder ein dylanwad, a her y dylem feddwl yn ddifrifol am y cydbwysedd rhwng gweithgareddau cyffredinol i "gynyddu ymwybyddiaeth", a gwaith â mwy o ganolbwynt gyda sectorau penodol.

Fe fyddwn yn ystyried hyn oll wrth gynllunio yn y dyfodol.

Er mwyn rhoi golwg mwy cyflawn, yn ei grynder ichi ar ein gweithgareddau yn 2005-2006, rydym wedi dadansoddi ein gwaith o dri safbwynt:

- gwariant yn ôl penawdau cost
- gwariant yn ôl gweithgareddau
- gweithgareddau yn ôl meysydd gwaith

Ffigyrau crai yw'r rhain, ond gobeithio eu bod yn bwrw rhywfaint o oleuni ar ein "gwerth am arian" a'r graddau y mae Aelodau'r Cyngor a'n tri gweithredwr wedi defnyddio cyllideb o £243,000 i gael dylanwad llawer mwy na'r disgwyl wrth hybu pwysigrwydd datblygu arweinwyr a rheolwyr ledled Cymru.

Yn gyntaf, dyma sut y gwnaethom ddefnyddio ein cyllideb dan ein prif benawdau gwariant:



Christopher Ward,
Prif Weithredwr,
Cyngor Rheolaeth Cymru



Mae Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth lle mae'n rhaid i'n dylanwad effeithio ar bolisïau'r llywodraeth, y cyllid y mae asiantaethau allweddol yn ei ddarparu, cyflenwad AU, AB a darparwyr y sector preifat, a rheolwyr eu hunain mewn cwmnïau a sefydliadau ym mhob sector.



Nod Cyngor Rheolaeth Cymru yw gwella ansawdd rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru trwy ymchwil drylwyr i faterion sy'n ymwneud â'r farchnad, gan weithredu fel symbylydd newid a chatalydd gwelliant trwy gydweithio, a thrwy fod yn eiriolwyr brwd dros bwysigrwydd datblygiad rheolwyr ac arweinwyr ym mhob sector a sefydliadau o bob maint.



Rôl Cyngor Rheolaeth Cymru yw bod â gweledigaeth gyffredinol ynghylch datblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru, ac yna gweld beth sy'n digwydd, a beth y mae'r farchnad yn chwilio amdano, mynegi hyn yn eglur i bawb sydd angen gwybod, dylanwadu ar newid i ddiwallu anghenion y farchnad, a gwneud popeth o fewn ein gallu gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym i gyfrannu at lunio polisïau, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso.

Nesaf, gallwn edrych ar y modd y defnyddiwyd ein cyllideb mewn ffordd gytbwys ar draws meysydd gweithgaredd allweddol:



Mae'r gwariant uchel ar "weledigaeth a strategaeth" yn adlewyrchu costau argraffu a dosbarthu ein hadroddiad strategol *Arweinwyr a Rheolwyr yng Nghymru - Agenda ar gyfer Twf.*

Ac yn olaf, edrychwn ar ffigyrau crai yr hyn a wnaethom mewn gwirionedd "ar lawr gwlad":

Cyflwyniadau	24
Cyfarfodydd pwyllgor	90
Cyfarfodydd ag unigolion	223
Cynadleddau a fynychwyd	22
Cyfarfodydd gweithgorau	6
Cyhoeddiadau	4
Rhifynnau *Rheolaeth - Meddyliwch Amdani*	11
Erthyglau yn y wasg	10
Ciniawau Alumni a Fforwm Arweinwyr	2
Cyfarfodydd y Cyngor	4
Cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol	6
Diwrnod Datblygu Aelodau'r Cyngor	1

Golyga hyn ar gyfartaledd traddodi 2 gyflwyniad, mynychu 7 cyfarfod pwyllgor, 19 cyfarfod ag unigolion, a dwy gynhadledd, cyhoeddi 1 erthygl yn y wasg ac 1 rhifyn o *Rheolaeth - Meddyliwch Amdani* bob mis.

Y canlynol oedd ein cyhoeddiadau eleni:

- *Arweinwyr a Rheolwyr yng Nghymru – Agenda ar gyfer Twf*
- *Adolygiad Blynyddol 2004 -2005*
- *Rheolaeth – Meddyliwch Amdani (crynodeb o erthyglau y llynedd)*
- *Mesur y Gwahaniaeth (adroddiad Ysgol Fusnes Caerdydd ar offer gwerthuso)*

Ac mewn cydweithrediad â sefydliad Mantais Gystadleuol Cymru yn Ysgol Fusnes Morgannwg, fe gyhoeddwyd y canlynol ar eu gwefan nhw a'n gwefan ni

- *Tools for Thought – Strategy made easy*

Gwaith cydweithredol â sefydliadau eraill yw'r allwedd i'n llwyddiant wrth ledaenu'r neges ynghylch pwysigrwydd datblygu rheolwyr ac arweinwyr ym mhob sector. Y ddwy enghraifft fwyaf trawiadol o hyn yn ystod y flwyddyn oedd cynhadledd Arwain Ymlaen 2005 yng Nghanolfan Mileniwm Cymru fis Tachwedd, ac ail flwyddyn *Gwobrau Arwain Cymru* fis Chwefror. Disgrifir a darlunnir y naill a'r llall ar y ddwy dudalen nesaf.

ARWAIN YMLAEN 2005

Disgrifiwyd *Arwain Ymlaen 2005*, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd ar 17 Tachwedd 2005, fel diwrnod o olygon dramatig a charreg filltir ar eich taith i reolaeth ac arweinyddiaeth mwy effeithiol. Mynychodd 180 o gynrychiolwyr, 63% o'r sector preifat, 31% o'r sector cyhoeddus a 6% o sefydliadau AU ac AB.

Yn ogystal â ni ein hunain, aelodau'r consortiwm a gynrychiolwyd oedd: Sefydliad Siartredig y Rheolwyr (CMI); Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM); Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD); Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IOD); a Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM). Croesawodd ac ariannodd pob consortiwm ddosbarth meistr a gyflwynwyd ddwywaith yn ystod y diwrnod: *Rhwydweithio* (CMI), *Arweinyddiaeth Tîm* (ILM), *Rheoli Perfformiad* (CIPD), *Eich Gwerthu Eich Hun* (IOD), *Cyfathrebu* (CIM), *a Hyfforddi Effeithiol* (Cyngor Rheolaeth Cymru).

Grŵp Llywio Arwain Ymlaen. O'r chwith i'r dde: Christopher Ward, Cyngor Rheolaeth Cymru; Barbara Chidgey, Sefydliad Siartredig y Rheolwyr; Henry Gilbert, Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu; Karen Jones, Sefydliad Siartredig y Rheolwyr; Gill Breeze, Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth; Paul Tapley, Sefydliad Siartredig Marchnata

Dechreuodd a gorffennodd y diwrnod â pherfformiad theatraidd gan grŵp drama CragRats i ddwyn sylw at themâu allweddol y dosbarth meistr, a disgrifiodd y cynrychiolwyr y rhain yn eu ffurflenni adborth fel a ganlyn: "anarferol", "hwyl", "gwahanol", "anghyffredin", "gwreiddiol", "difyr", "arloesol" "ysgogi trafod", a "ffordd dda iawn o agor y gynhadledd". Hefyd fe gymerodd aelodau CragRats ran yn y dosbarthiadau meistr fel eu cymeriadau gwreiddiol ac fel eu hunain.

Roedd yr ymatebion i'r gynhadledd yn ei chyfanrwydd yn arbennig o bositif a chanmoliaethus. Roedd "rhagorol", "ffantastig", "gwych", "trawiadol", "perthnasol iawn", "cymysgedd hyfryd o fethodolegau dysgu", "mor dda fel y gallen nhw fod wedi bod wrthi'n hwy", "achlysur ardderchog, mwy os gwelwch yn dda – encôr" ymhlith y sylwadau brwdfrydig a ddaeth yn ôl atom. Rydym bellach yn cynllunio cynhadledd Arwain Ymlaen 2006 a fydd yn cael ei chynnal ar Gae Ras Cas-gwent ar 16 Tachwedd 2006.

GWOBRAU ARWAIN CYMRU 2006

Cwmni theatr CragRats yn perfformio "The Mikado" yng nghynhadledd Arwain Ymlaen

Yn ein hamrywiol adroddiadau strategol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi ceisio pwysleisio pa mor bwysig yw dathlu rheolwyr ac arweinwyr rhagorol yng Nghymru fel esiampl i eraill. Yn sgîl hyn, daeth Cyngor Rheolaeth Cymru, Sefydliad Siartredig y Rheolwyr, Llwybrau Dysgu Cymru, Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, ACCA, Common Purpose, Cyfreithwyr Dolmans a Hilton Caerdydd at ei gilydd fel consortiwm, gyda Radio Wales yn bartner darlledu.

Cynhaliwyd *Gwobrau Arwain Cymru* am y tro cyntaf yn 2005, mewn pedwar categori: cwmnïau mawr yn y sector preifat, cwmnïau bach yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a mudiadau gwirfoddol/dielw. Ysgogodd llwyddiant achlysur 2005 y consortiwm i fynd ati'n fwy dygn eto i sicrhau bod *Gwobrau Arwain Cymru* yn dod yn achlysur parhaol ar y calendr. Yn 2006, fe wnaethom gynyddu nifer y gwobrau i gynnwys dau gategori ar gyfer y sector gwirfoddol, sef mawr a bach, a gwobr arweinydd tîm. Yn achlysur Gwobrau 2006, fe wnaethom ninnau ymwneud yn fwy ag ef, trwy fod yn aelod o'r consortiwm ac yn noddwr y wobr ar gyfer busnesau â mwy na 250 o weithwyr.

Grŵp Llywio Gwobrau Arwain Cymru. Rhes gefn o'r chwith i'r dde: Brian Morgan, Ysgol Fusnes Caerdydd; Wyn Mears, ACCA; Barbara Chidgey, Llwybrau Dysgu (Cymru); Julie Barton BBC Cymru; Mark Walker, Hilton Caerdydd; Christopher Ward, Cyngor Rheolaeth Cymru. Rhes flaen o'r chwith i'r dde: Judith James, Common Purpose; Joy Phillips, Dolmans; Karen Jones, Sefydliad Siartredig y Rheolwyr

Y buddugwyr oedd: Roger Evans, Shaeffler (UK) Cyf (Busnesau > 250 o weithwyr); Allan Meek, Smoke Control Services (Busnesau < 250 o weithwyr); Tom Price, Undeb Credyd Cymunedol Landsker (Dielw < £250k o incwm blynyddol); Mutale Nyoni, BAWSO Cyf (Dielw > £250k o incwm blynyddol); Allison Williams, Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion (Sector cyhoeddus); Elin Cullen, Adran Gwasanaethau Plant CS Gâr (Arweinydd Tîm).

Mae cynllunio ar gyfer *Gwobrau Arwain Cymru 2007* eisoes wedi dechrau.

ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD CYNGOR RHEOLAETH CYMRU

Dyma Grynodeb Gweithredol o'r adolygiad o Gyngor Rheolaeth Cymru a gynhaliwyd gan CM International ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2005.

Yn unol â'r gofynion statudol, fe gomisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Adolygiad o Effeithiolrwydd Cyngor Rheolaeth Cymru ym mis Ebrill 2005.

Mae Cyngor Rheolaeth Cymru, cwmni cyfyngedig drwy warant, wedi bodoli ar ei ffurf bresennol ers 1998. Disgrifia Cyngor Rheolaeth Cymru (y Cyngor) ei hun fel "corff strategol y mae cyflogwyr yn ei arwain". Bydd yn ymgymryd ag amrediad eang o weithgareddau gyda'r nod o hybu datblygu rheolwyr ac arweinwyr (DRhA) yng Nghymru.

Mae rôl a chylch gorchwyl Cyngor Rheolaeth Cymru wedi esblygu dros gyfnod o amser, a daeth mwy o ffocws a tharged i'w weithgareddau dros y blynyddoedd. Y Cyngor ei hun fu'n brif sbardun datblygu a mireinio ei nodau a'i amcanion a'u trosi'n fodel cydlynol ar gyfer ei weithgareddau.

Cangen Arloesedd Grŵp Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ariannu ac yn goruchwylio'r Cyngor i raddau helaeth.

Mae'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfuno dwy elfen:

1. Gwerthusiad sy'n ystyried effeithiolrwydd y gweithgareddau y mae Cyngor Rheolaeth Cymru yn ymwneud â hwy, gan gynnwys ystyriaeth o "werth am arian".

2. Adolygiad strategol sy'n ystyried cyd-destun sefydliadol gweithrediad Cyngor Rheolaeth Cymru a'r graddau y gall newidiadau yn y cyd-destun hwn ddylanwadu ar ei effeithiolrwydd o bosibl.

Casgla'r adolygiad i'r Cyngor fod yn effeithiol wrth ddylanwadu ar ddatblygiad strategaeth DRhA asiantaethau'r sector cyhoeddus. Gellir gweld bod y Cyngor wrth galon cynyddu gweithgaredd DRhA ar bob lefel:

- Ymchwil
- Polisi
- Gweithredu

Mae Cyngor Rheolaeth Cymru yn gorff sydd wedi'i drefnu'n broffesiynol a'i redeg yn dda ac sy'n mabwysiadu dull cydlynol o ddatblygu ei strategaeth drefniadol a'i weithgareddau. Gellir dweud bod ei ddull o adeiladu perthnasoedd a rhwydweithio hefyd yn 'broffesiynol'. Mae'n cynnig gwerth am arian ac yn defnyddio'i adnoddau cyfyngedig i'r eithaf.

Fodd bynnag, tra bod y Cyngor wedi cyflawni amlygrwydd a hygrededd gref, ni ystyrir ef yn gyffredinol yn "gorff arweiniol" DRhA yng Nghymru. Mae angen canolbwyntio parhaus ar sicrhau eglurder o ran ffocws, rôl a natur y Cyngor fel sefydliad er mwyn sicrhau bod modd parhau i gyfiawnhau'r Cyngor. Mae hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd ei sefyllfa mewn cyd-destun sefydliadol sy'n esblygu yn sgîl proses cyfuno'r WDA, y Bwrdd Croeso ac ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru a chreu'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA) a'r Cynghorau Sgiliau Sector (SSC).

Yn olaf, mae'r ymchwil a gynhaliwyd i gymaryddion y DU a chymaryddion rhyngwladol yn awgrymu bod Cyngor Rheolaeth Cymru yn arddangos nodweddion unigryw sy'n cynnwys ei safle annibynnol heb sail aelodaeth, a chyfuniad o waith polisi gyda gweithgareddau rhwydweithio.

Jackie Royall, Buy-As-You-View; Simon Weston, The Weston Spirit; Brian Morgan, Ysgol Fusnes Caerdydd a Christopher Ward, Cyngor Rheolaeth Cymru yng nghinio Uned Arweinyddiaeth, Menter a Datblygiad Economaidd (LEED), a drefnwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd

Y gynulleidfa yn sesiwn agoriadol cynhadledd Arwain Ymlaen 2005

Alan Horton o Canolfan Arweinyddiaeth Cyf, hwyluswr Arwain Ymlaen 2005, ger stondin arddangos y Safonau Rheoli

Argymhellion

Gellir rhannu'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o'r Cyngor yn rheiny sy'n ymwneud â datblygiadau strategol, y rheiny sy'n ymwneud â datblygiadau sefydliadol, a'r rheiny sy'n ymwneud â datblygiadau gweithredol, fel a ganlyn:

- ***Strategol***

1. Egluro sefyllfa'r Cyngor yng nghyd-destun cyfuno'r CCNCau â LICC a hefyd yng nghyd-destun gwahanol briffiau polisi yn LICC.

   (Tasg i LICC gyda'r Cyngor)

2. Adolygu'r cydbwysedd rhwng cyfraniadau'r Cyngor ar y lefelau strategol a gweithredol.

   (Tasg i LICC gyda'r Cyngor, asiantaethau gweithredu, ac AU/AB)

3. Cynnal ymarfer segmentu marchnad a datblygu strategaeth i gynyddu dwyster yr ymgysylltu â gwahanol grwpiau targed, yn enwedig BBaChau.

   (Tasg i'r Cyngor gyda LICC)

4. Ystyried cynnydd bach mewn adnoddau i'r Cyngor (e.e. i gyflogi aelod ychwanegol o staff i atgyfnerthu'r gweithgareddau rhwydweithio) er mwyn rhyddhau'r potensial am fwy o elw ar fuddsoddiad.

   (Tasg i LICC)

- ***Sefydliadol***

5. Ailedrych ar y cydbwysedd rhwng hybu a chynyddu ymwybyddiaeth o DRhA yn gyffredinol a gwaith DRhA arbenigol sy'n canolbwyntio ar anghenion a heriau mewn gwahanol sectorau a sefydliadau.

   (Tasg i'r Cyngor)

6. Egluro rôl y Cyngor yng nghyd-destun sefydliadol SSDA a'r Cynghorau Sgiliau Sector.

   (Tasg i LICC mewn cysylltiad â SSDA a'r Cyngor)

7. Adolygu a gwerthuso cryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau o fod yn Aelod o'r Cyngor a sefydliadoli'r rhyngweithio â gwahanol grwpiau o randdeiliaid.

   (Tasg i'r Cyngor)

- ***Gweithredol***

8. Cynnal arolwg o effeithiolrwydd y gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth ac addasu'r gweithrediadau ynn ôl y canlyniadau.

   (Tasg i'r Cyngor)

9. Ystyried ffyrdd o ymgorffori perthnasoedd rhwydweithio a gwybodaeth ddealledig sy'n gyfarwydd i'r bobl y mae'r Cyngor yn eu cyflogi ar hyn o bryd a'r bobl ar y Cyngor yn fwy cadarn yn y sefydliad.

   (Tasg i'r Cyngor)

10 Ystyried ailgyfeirio adnoddau o'r gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth i ryngweithiau â mwy o darged o fewn rhwydwaith bychan â mwy o ffocws.

   (Tasg i'r Cyngor)

Christopher Ward yn siarad yng nghyfarfod lansio rhaglen "Ysbrydoli Llwyddiant" S A Partners

Christopher Ward yn nhrafodaeth bord gron cylchgrawn "Insider" ar Arloesedd

Bill Manson, Rhwydwaith Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, Gogledd Iwerddon, a Christopher Ward yng nghynhadledd Arwain Ymlaen

AELODAU A STAFF Y CYNGOR

Aelodau'r Cyngor

- *Aelodau fu'n gwasanaethu trwy gydol 2005 - 2006*

Ian Rees (Cadeirydd)	Riverside Water Technologies
Laurence James (Ysgrifennydd)	Meade King
Eileen Murphy	Cynghorydd i'r Sector Gwirfoddol
Nonna Woodward	IOD a Phapurau Newydd Gogledd Cymru
Yr Athro Michael Quayle	Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg
Chris Young	Fforwm Electroneg Cymru
Jacqueline Royall	Buy-as-you-View
Peter Hurley	Orange Box
Gary Mawer	UPL
Andrew Wilkinson	Prifysgol Casnewydd; Gyrfa Cymru
Roger Evans	Schaeffler (UK) Cyf
David Finch:	Coleg Ystrad Mynach

Christopher Ward gyda Roger Evans, Schaeffler (UK) Cyf, buddugwr categori Busnesau â mwy na 250 o Weithwyr yng Ngwobrau Arwain Cymru

- *Aelodau a adawodd y Cyngor yn 2005 - 2006*

Rob Farnham	Quality Plus

- *Aelodau a fydd yn gadael y Cyngor yn 2006 - 2007*

Ian Rees (Cadeirydd)	Riverside Water Technologies
Nonna Woodward	IOD a Phapurau Newydd Gogledd Cymru
Yr Athro Michael Quayle	Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg

- *Cadeirydd*

Fe fydd Andrew Wilkinson yn dod yn Gadeirydd yn lle Ian Rees fis Mai 2006.

Arsylwyr

Robert Macey	Llywodraeth Cynulliad Cymru (hyd fis Tachwedd 2005)
Rob Halford	Llywodraeth Cynulliad Cymru (o fis Mawrth 2006)
Richard Rossington	Llywodraeth Cynulliad Cymru
John V Williams	ACCAC

Gwyneth Stroud a Tina Stephens

Staff

Christopher Ward	Prif Weithredwr	christopher.ward@crc-wmc.org.uk
Gwyneth Stroud	Gweithredwr Marchnata	gwyneth.stroud@crc-wmc.org.uk
Tina Stephens *until 31 March 2006*	Gweithredwr Gogledd Cymru	tinastephens@btopenworld.com
Siân Rees *from 1 April 2006*	Gweithredwr De Cymru	sian.rees@crc-wmc.org.uk
Steve Donnelly *from 1 April 2006*	Gweithredwr Gogledd Cymru	steve.donnelly@crc-wmc.org.uk